**Adroddiad ar**

# Gylch Meithrin Sarnau a Llandderfel

**Neuadd y Sarnau**
**Sarnau**
**Y Bala**
**LL23 7LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Sarnau a Llandderfel

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Llinos Rowlands |
| Person â gofal | Cody Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:00-9:00 – Clwb Brecwast, 9:00-11:30 – Cylch Meithrin, 11:30-3:15 – Gofal Plant, 3:15-5:00 – Clwb Gofal Plant (pan fod angen) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/06/2024 |
| Ychydig iawn o'r plant sy'n dod o gartrefi Cymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu dulliau holi'r ymarferwyr, er mwyn ymestyn medrau a dealltwriaeth plant

A2 Cryfhau trefniadau hunanwerthuso trwy sicrhau bod bob ymarferydd yn cyfrannu'n llawn i'r broses

A3 Datblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer arfarnu a gwerthuso ymarferwyr, gan sicrhau targedau clir ar gyfer gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob un plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn frwdfrydig i fynychu a mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn ymgolli yn eu chwarae yn syth wrth fynd at yr ystod o adnoddau a gweithgareddau'n annibynnol. Caiff y nifer fach iawn o blant sydd ychydig yn ofidus wrth gyrraedd y lleoliad eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ymarferwyr. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau'n gyson gan ddewis ble i chwarae tu fewn a thu allan i'r lleoliad, neu wrth ddewis pa frecwast i'w gymryd. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud rhwng y gweithgareddau a'r profiadau sydd ar eu cyfer, gan wneud hyn yn hyderus.

Mae bron bob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n gyfforddus iawn yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn deall bod ganddynt lais o fewn y lleoliad a bod yr ymarferwyr yn gwrando ac yn eu cefnogi i ddatgan eu barn, eu dyheadau a'u teimladau. Maent yn cael mynegi barn ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio. Maent yn gwneud penderfyniadau effeithiol iawn o ran pa adnoddau yr hoffent eu defnyddio o fewn yr ardaloedd. Er enghraifft, cânt ddewis llyfrau o'r sied ddarllen a mynd â nhw i ben ffrâm ddringo i graffu arnynt gyda ffrind.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n rhagorol â'i gilydd ac oedolion, gan siarad yn aeddfed. Maent yn hyderus iawn wrth holi ymarferwyr am gymorth neu wrth esbonio rhywbeth. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf a buddiol gyda'r holl ymarferwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r plant yn manteisio ar ofal effeithiol sydd wedi'i deilwra'n fedrus i'w hanghenion unigol. Maent yn ymfalchïo yn llwyddiannau ei gilydd, gan gyd-ddathlu gydag ymarferwyr am gyflawniadau newydd eu ffrindiau, er enghraifft wrth ddal pêl am y tro cyntaf.

Mae bron bob plentyn yn dangos brwdfrydedd wrth feithrin medrau annibynnol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth dorri ffrwythau a rhoi menyn ar gracer yn ystod amser byrbryd. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd hylendid personol ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn bwyta ac ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn ymddwyn yn arbennig o dda gan ddangos parch at yr ymarferwyr a'u cyfoedion. Mae bron bob un yn datblygu medrau cymdeithasol arbennig. Maent yn cyd-chwarae'n hwyliog gan helpu ei gilydd i ddatrys problemau yn eu chwarae dychmygus, gan gynnwys sut i ludo briciau ac adeiladu wal. Maent yn dysgu i gymryd eu tro yn llwyddiannus o dan oruchwyliaeth fedrus yr ymarferwyr ac yn parchu teimladau a diddordebau eraill. Er enghraifft, maent yn casglu teganau sy'n cwympo o bram ac yn eu gosod yn ôl yn ddiogel i helpu ffrind sy'n chwarae gêm teulu. Mae'r plant yn llwyddo i ganolbwyntio yn arbennig o dda ac i ddyfalbarhau ar dasgau, ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael iddynt. Maent yn magu hyder wrth lwyddo mewn tasgau ac yn ailadrodd eu llwyddiannau wrth geisio meistroli medrau newydd fel cario dŵr o un lle i'r llall, neu yrru sgwter yn gelfydd trwy gwrs rhwystrau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n naturiol ac yn gyfeillgar gyda'r plant ac mae'r berthynas ofalgar hon yn amlwg ym mhob agwedd o waith y lleoliad. Maent yn deall pwysigrwydd caniatáu i'r plant fwynhau chwarae am gyfnodau estynedig. Maent yn cynnal cyfnodau sionc a buddiol ar ddechrau'r bore er mwyn i'r plant gymdeithasu a chyd-ganu caneuon cyfarwydd. Golyga hyn fod y plant yn hapus yng nghwmni ei gilydd ac oedolion ac yn barod iawn i drafod a rhannu wrth chwarae.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn sicrhau iechyd a diogelwch defnyddwyr y lleoliad yn llwyddiannus trwy gwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd tu fewn a thu allan. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant ac maent yn diweddaru eu hyfforddiant diogelu yn brydlon. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan fwyafrif yr ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn rhoi triniaeth briodol ac yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn bwrpasol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweinyddu a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan fwyafrif yr ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd wrth ddilyn y polisi newid cewynnau a chedwir cofnodion pwrpasol. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru drefnus yn cynnwys sicrhau bod cofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas gynnes a naturiol â'r plant ac maent bob amser yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn mwynhau cyd-chwarae ochr yn ochr â'r plant er mwyn datblygu eu dychymyg a'u hannog i fod yn chwilfrydig. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ymddwyn yn briodol gan eu dysgu i rannu, aros a chymryd eu tro. Maent yn canmol y plant yn fedrus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau, eu dealltwriaeth o arferion, a'u hunanhyder. Yn ystod amser byrbryd, cynigir cyfleoedd buddiol i'r plant gymdeithasu yn effeithiol o amgylch byrddau pwrpasol.

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth dda o anghenion y plant a'u dymuniadau a diddordebau unigol. Maent yn arsylwi a chofnodi cynnydd y plant mewn modd sensitif ac effeithiol, a hynny'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Maent yn darparu'n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arweiniad tîm iaith a lleferydd y gwasanaeth iechyd lleol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu gweithgareddau a phrofiadau diddorol sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad cyffredinol y plant hyn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn annog datblygiad llafar Cymraeg y plant yn addas. Lle mae’r arfer hon ar ei gorau, mae’r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac yn bwydo geirfa’n llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth y plant o’r iaith. Mae’r ymarferwyr yn ysgogi’r plant yn gelfydd i ddatblygu cariad at lyfrau gan greu naws lle maent yn hyderus wrth fynd i nôl llyfrau yn annibynnol, er mwyn pori drwyddynt ar eu pennau eu hunain, neu i fynd at oedolyn er mwyn cael cyfle i wrando ar y stori. O ganlyniad mae medrau darllen cynnar y plant yn datblygu’n gadarn wrth iddynt droi tudalennau yn ddeallus ac ailadrodd storïau neu greu naratif gwreiddiol am y cymeriadau yn y lluniau. Mae ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd eang i blant  ddechrau creu marciau a datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae mwyafrif y plant yn deall bod marciau yn gyfystyr â geiriau ac yn deall y rheswm am ysgrifennu. Mae ychydig o blant yn adnabod llythrennau o’u henwau ar fysellfwrdd gliniadur.

Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o gyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu medrau rhifedd y plant. Maent yn sicrhau bod cynwysyddion o wahanol feintiau yn y gegin fwd a’r twba dŵr, gan annog y plant i chwarae ac arbrofi gyda’r offer. Maent yn cynorthwyo’r plant i adnabod rhifau coll a chyfri wrth chwarae gemau tu fewn a thu allan fel dominos a ‘hopscotch’. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfri hyd at 5 yn annibynnol, gydag ychydig yn cyfri hyd at 10 yn gywir. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n llwyddiannus at ddatblygiad medrau digidol plant. O ganlyniad, maent yn deall bod offer digidol yn rhan annatod o’u bywydau, er enghraifft drwy chwarae gyda thil siop wrth werthu nwyddau, a chyfathrebu gyda pharau o radios a ffonau symudol.

Yn yr ardal tu allan, mae amrediad da o adnoddau mawr sy’n rhoi cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol. Mae’r ymarferwyr yn cynorthwyo’r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o sut i reoli risgiau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â’r mannau yr hoffent chwarae ynddynt. Maent yn mwynhau dringo dros a thrwy'r offer mawr, gan glymu rhaffau yn ofalus i ehangu eu chwarae dychmygus. Yn ogystal, maent yn cael llawer o gyfleoedd i gyd-chwarae’n frwdfrydig gyda beiciau a cherbydau ac maent yn eu rheoli’n feistrolgar wrth deithio’n gyflym o gwmpas yr iard.

Mae’r ymarferwyr yn cyd-chwarae’n dda â’r plant gan eu holi’n fedrus am sut i ddatrys problemau gwahanol, fel pan mae cerbyd yn mynd yn sownd mewn ffos. Maent yn trafod pa adnoddau sydd eu hangen i lwyddo yn y dasg ac yn ystyried opsiynau gwahanol gyda’r plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn holi’r plant yn ddigon effeithiol er mwyn ymestyn medrau a dealltwriaeth y plant.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd i ddysgu am ddigwyddiadau diddorol mewn diwylliannau eraill, er enghraifft wrth greu patrymau Rangoli gwreiddiol gydag adnoddau gwahanol wrth ddysgu am Diwali. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn sensitif ac yn rhesymu’n gall yn yr achosion prin pan fydd plant yn anghytuno â’i gilydd neu eisiau’r un tegan. O ganlyniad, mae gan blant ddealltwriaeth gadarn o degwch a beth sy’n iawn ac yn anghywir. Mae eu hymddygiad yn rhagorol, sy’n arwain at amgylchedd tawel a phwrpasol o fewn y

lleoliad. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u Cymreictod a'u cynefin yn addas, er enghraifft wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi trwy ofyn i'r plant wisgo'n draddodiadol a choginio cawl gyda'r plant. Maent hefyd yn dathlu digwyddiadau elusennol ac yn casglu arian drwy werthu cacennau a gwisgo i fyny, ac yn nodi Sul y cofio trwy greu eu pabi coch eu hunain o wahanol ddeunyddiau.

Mae'r ymarferwyr yn monitro cynnydd y plant yn effeithiol trwy gofnodi eu harsylwadau mewn llyfr 'taith dysgu', sy'n crynhoi a dathlu datblygiadau'r plant dros gyfnod. Maent yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r plant drwy siarad yn rheolaidd gyda'r rhieni a thrwy ofyn iddynt lenwi ffurflen 'taith datblygiad eich plentyn' yn achlysurol. Mae hyn yn rhoi gogwydd ychwanegol i'r ymarferwyr ar ddatblygiad y plant. Mae'r holl wybodaeth hon yn sail ddefnyddiol sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf a thargedu cynnydd i bob plentyn.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a glân. Maent yn sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi ac mae ymarferwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac maent yn sicrhau bod ymarferion tân pwrpasol yn digwydd yn rheolaidd. Maent hefyd yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n drylwyr a rheolaidd, gan gynnwys yr offer tân a'r blychau cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, gan nodi amserau cyrraedd a gadael y safle.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd sydd yn groesawgar a chynnes a maent yn sicrhau digon o le ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Mae toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau pwrpasol gan y lleoliad, sy'n sicrhau parch ac urddas i blant. Maent yn sicrhau bod yr ardal tu fewn yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol a'r ardal tu allan yn sicrhau bod gan blant ardal chwarae sy'n cynnig heriau a chyfleoedd iddynt gymryd risgiau priodol ar gyfer eu hoedran. Er enghraifft, mae'r adnoddau tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol trwy ddringo, reidio beiciau a cheir, ac adeiladu gwahanol wrthrychau. Maent yn cael eu hannog i arbrofi gyda dail, dŵr a phridd yn yr ardal cegin fwd i greu cacennau yn y tuniau pobi amrywiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y dodrefn, y cyfarpar a'r adnoddau amrywiol o safon dda i'r plant. Maent yn eu hannog i ddysgu trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau gan gynnwys rhai sydd wedi eu hailgylchu. Maent yn cael eu hannog yn fedrus i ddewis offer ac adnoddau yn annibynnol gan ddilyn eu diddordebau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod bob plentyn yn hapus a diogel yn y lleoliad. Mae hi'n angerddol am ddarparu'r sylfaen orau posibl i'r plant tra maent o dan ei gofal. Gyda chefnogaeth ei chydweithwyr, mae'n gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae'n ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm

cyfan yn cydweithio’n effeithiol er lles y plant yn eu gofal. Mae’r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae’r arweinwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad y lleoliad mewn modd ymarferol, er enghraifft wrth fuddsoddi cyllid er mwyn sicrhau adnoddau safonol o fewn y lleoliad. Maent yn gefnogol ac yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau gan yr ymarferwyr a’r swyddogion o asiantaethau allanol.

Mae’r arweinydd yn cynnal amrediad addas o weithgareddau hunanwerthuso er mwyn adnabod yr elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach, fel cynnal trafodaethau rheolaidd anffurfiol gydag ymarferwyr, a thrwy anfon holiaduron at rieni a gofalwyr yn achlysurol. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferydd bob amser yn cael cyfleoedd i gyfrannu’n ddigon weithredol wrth werthuso cryfderau’r lleoliad yn ogystal â’r meysydd i’w gwella. Mae’r blaenoriaethau gwella wedi eu rhannu’n gamau synhwyrol, ac mae’r arweinydd a’r pwyllgor yn eu gwerthuso’n achlysurol. Er enghraifft, maent wedi gwella agweddau o’r ardal tu allan er mwyn datblygu medrau plant yn llwyddiannus a diogel.

Mae gan yr arweinydd ac ymarferwyr berthynas agos a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth fuddiol yn gyson trwy ddefnyddio dulliau digidol. Mae’r rhieni a gofalwyr yn medru cysylltu’n uniongyrchol â’r lleoliad er mwyn holi unrhyw gwestiwn neu er mwyn gwneud sylw am gynnydd neu les eu plentyn. Mae gan arweinwyr berthynas waith fuddiol â swyddogion tîm ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod addysg lleol. Mae’r berthynas hon yn aeddfed ac yn cyfrannu’n werthfawr at ddatblygiad y ddarpariaeth dros amser. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas waith ymarferol â swyddogion y mudiad ymbarél sy’n cydweithio â nhw. Mae hyn yn sicrhau amrediad o bolisïau a gweithdrefnau a hyfforddiant buddiol sy’n cynnal y ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae’r arweinydd yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae’r arweinydd yn cynnal gweithdrefnau gwerthuso perfformiad ymarferwyr yn rheolaidd. Er bod y sesiynau hyn yn darparu arfarniadau sy’n fuddiol o ran sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, nid ydynt yn darparu targedau digon clir ar gyfer eu datblygiad.

Mae’r lleoliad wedi creu perthynas agos a buddiol â’r ysgol leol. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo’r cydweithio hwn trwy sicrhau cyfleoedd i’r plant fynychu'r ysgol un bore’r wythnos i fod yn rhan o ddosbarth ieuengaf yr ysgol. Mae’r arweinydd yn mynychu hefyd, ac yn cynorthwyo’r plant i ymgymryd â phrofiadau’r dosbarth. Golyga hyn fod y plant yn ymgartrefu’n hwylus ar gychwyn y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae’r arweinydd yn cydweithio’n agos â’r gymuned leol, er enghraifft wrth drefnu ymweliadau cyson â’r gerddi lleol. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cymuned leol yn llwyddiannus. Mae nifer cyfyngedig o ymwelwyr yn dod i’r lleoliad i gyfoethogi profiadau’r plant, fel y deintydd sy’n hyrwyddo pwysigrwydd glanhau dannedd.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/08/2024